Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 305 - 22 Tachwedd 2007
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2007.

1. Ymgynghoriad Plant
Amlinellodd RhG yr amserlen arfaethedig, a gobeithir lansio'r gwasanaeth meithrin ym Mehefin 2008, gyda chymalau pellach i ddilyn.

Penderfynwyd cymeradwyo'r patrwm darlledu yn amodol ar dderbyn cyngor am yr angen am Orchymyn yng nghyd-destun y gwasanaeth Meithrin ac yn ogystal yn amodol ar y trafodaethau yn ymwneud â darlledu o'r Cynulliad a chapasiti S4C2 yng nghyd-destun y gwasanaethau Cynradd ac Arddegau.

2. Adroddiad y Cadeirydd
Diolchodd y Cadeirydd i bawb oedd wedi bod ynghlwm â darpariaeth arbennig S4C o angladd Ray Gravell o Barc y Strade.

Mynychodd Gynhadledd Mercator yn Aberystwyth i ddathlu pen-blwydd S4C yn 25. Diolchodd i'r BBC am noddi'r cinio ar y nos Wener, ac yn ogystal am eiriau caredig Keith Jones am natur y berthynas rhwng y BBC ac S4C.

Nododd bod tri chinio llwyddiannus wedi eu cynnal yn S4C ynghyd â derbyniad i gynhyrchwyr a derbyniad yn Llundain fel rhan o ddathliadau S4C yn 25 oed. Roedd derbyniad yn dal i'w gynnal yn y Gogledd.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr
Cyflwynodd IJ ei hadroddiad. Nododd fod Ofcom wedi cyhoeddi dogfen ymgynghorol yn ymwneud ag aildrefnu'r plethiadau DTT ar gyfer darganfod gofod ar gyfer darllediadau Manylder Uwch o'r gwasanaethau PSB.

Nododd IJ fod adroddiad diweddaraf y Pwyllgor Dethol CMS ar Gynnwys Gwasanaeth Darlledu Cyhoeddus wedi ei gyhoeddi. Roedd yn defnyddio S4C fel esiampl o arian cyhoeddus yn cael ei ddosbarthu i ddarlledwr yn uniongyrchol gan ddangos fod modd i ddarlledwr barhau i weithredu yn annibynnol.

Nododd RhG ei bod wedi annerch cynhadledd *Voice of the Listener and Viewer* yn ymwneud â darlledu i blant ac mai S4C oedd yr unig ddarlledwr yn y gynhadledd oedd yn bwriadu cynyddu ei ddarpariaeth yn y maes.

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cymeradwyo dogfen Llythrennedd y Cyfryngau S4C ar gyfer 2008.

4. Cyllideb 2008
Cytunwyd y byddai KM yn cyflwyno Cyllideb Drafft 2008 yng nghyfarfod yr Awdurdod fis Rhagfyr**.**

5. Cymeradwyo Drafft Cynllun Corfforaethol 2008
Trafodwyd man newidiadau i'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2008.

6. Adolygiad Polisi Amddiffyn Plant S4C
Trafodwyd a chymeradwywyd y Polisi Amddiffyn Plant.

7. Adroddiad ar Bwyntiau Gweithredu S4C ar wahaniaethu ar sail anabledd ar gyfer 2007
Derbyniwyd yr Adroddiad.

8. Drafft o Gynllun Gweithredu S4C ar wahaniaethu ar sail anabledd ar gyfer 2008
Yn dilyn trafodaeth cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu drafft ar gyfer 2008.

9. Cyflwyniad ar Ymchwil Segmenteiddio
Cafwyd cyflwyniad gan Carys Evans a chynrychiolwyr GfK NOP.

10. Materion Eraill
Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Rhaglen Waith yr Awdurdod 2007
- Tabl Digwyddiadau am 2007